*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 146 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

# 2025 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("Deddf 2022") yn diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac yn creu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn").

Mae paragraff 29 o Atodlen 4 i Ddeddf 2022 yn diwygio Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013") mewn perthynas ag ad-drefnu ysgolion. Mae'r diwygiadau hynny yn cynnwys dileu pwerau Gweinidogion Cymru i wneud cynigion i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol, gan roi'r pwerau yn lle hynny i'r Comisiwn i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth er mwyn adlewyrchu'r diwygiadau hynny a wnaed i Ddeddf 2013 gan Ddeddf 2022.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r offeryn hwn.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 146 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

---

# 2025 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *5 Ebrill 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 146(1)(a) a (2) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022(**1**).

Yn unol ag adran 143(3) a (4)(e)(ii) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 5 Ebrill 2025.

---

(**1**) 2022 dsc 1.

(**2**) Gweler hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.

**Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**

**2.** Ym mharagraff 22 (Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013) o Atodlen 1 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau) i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**1**), hepgorer is-baragraff (4).

**Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015**

**3.** Yn rheoliad 4(1)(d) (eithriadau) o Reoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015(**2**)—

(a) yn lle "fo Gweinidogion Cymru" rhodder "fo'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil";

(b) yn lle "adran 72(1)" rhodder "adran 63D(2)".

*Enw*
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
*Dyddiad*

(**1**) 2018 dccc 2.
(**2**) O.S. 2015/1403 (Cy. 139).